

Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP)

Coedwig Genedlaethol yng Nghymru Adolygiad Tystiolaeth Atodiad-3

ERAMMP Adroddiad-35 Atodiad-3: Diogelu ein Coetir ar gyfer y Dyfodol

Beauchamp, K., Bathgate, S., Burton, V., Jenkins, T.A.R., Morison, J.,
Nicoll, B. a Perks, M.P.

Forest Research

Cyfeirnod y Cleient: Llywodraeth Cymru / Contract C210/2016/2017
Fersiwn 1.0
Dyddiad: 28/08/2020



ERAMMP Adroddiad-35/Atodiad-3 v1.0

Wedi'i Ariannu gan:



Hanes y Fersiynau

Fersiwn	Diweddarwyd gan	Dyddiad	Newidiadau
1.0	Tîm Awduron	28/08/2020	Cyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn electronig yma / This report is available electronically at: www.erammp.wales/35

Neu trwy sganio'r cod QR a ddangosir / Or by scanning the QR code shown.



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg / This document is also available in Welsh

Cyfres	Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) Coedwig Genedlaethol yng Nghymru - Adolygiad Tystiolaeth
Teitl	ERAMMP Adroddiad-35 Atodiad-3: Diogelu ein Coetir ar gyfer y Dyfodol
Cleient:	Llywodraeth Cymru
Cyfeirnod y Cleient:	C210/2016/2017
Cyfrinachedd, hawlfraint ac atgynhyrchu	© Hawlfraint y Goron 2020. Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored 3.0.
Manylion cyswllt UKCEH	Bronwen Williams Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (UKCEH) Canolfan yr Amgylchedd Cymru, Ffordd Deiniol, Bangor, Gwynedd, LL57 2UW 01248 374500 erammp@ceh.ac.uk
Awdur Gohebol	Kate Beauchamp, Forest Research kate.beauchamp@forestresearch.gov.uk
Awduron	Beauchamp, K., Bathgate, S., Burton, V., Jenkins, T.A.R., Morison, J., Nicoll, B. a Perks, M.P. Forest Research
Awduron sydd wedi cyfrannu	Anthony Geddes ¹ , John Healey ² , Keith Kirby ³ , Jerry Langford et al. ⁴ , Eleanor Warren-Thomas ⁵ ¹ Confor, ² Prifysgol Bangor, ³ Prifysgol Rhydychen, ⁴ Coed Cadw, ⁵ UKCEH
Sut i ddyfynnu (hir)	Beauchamp, K., Bathgate, S., Burton, V., Jenkins, T.A.R., Morison, J., Nicoll, B. a Perks, M.P. (2020). <i>Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP)</i> . ERAMMP Adroddiad-35: Coedwig Genedlaethol yng Nghymru - Adolygiad Tystiolaeth Atodiad-3: Diogelu ein Coetir ar gyfer y Dyfodol. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017) (Prosiect: 06297 Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU)
Sut i ddyfynnu (byr)	Beauchamp, K. et al. (2020). ERAMMP Adroddiad-35: Tystiolaeth Coedwig Genedlaethol Atodiad-3. Adroddiad i Lywodraeth Cymru (Contract C210/2016/2017)(UKCEH 06297)
Cymeradwywyd gan	Lloyd Harris James Skates

Byrfoddau a Ddefnyddir yn yr Atodiad hwn

ALC	Dosbarthiad Tir Amaethyddol
AOD	Dirywiad Derw Acíwt
APHA	Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
ASC	Is-bwyllgor Addasu
ASNW	Coetir Hynafol a Lled-Naturiol
CCF	Coedwigaeth Gorchudd Parhaol
CCRA	Asesiad Risg Newid Hinsawdd
COD	Dirywiad Derw Cronig
DAMS	Dull agwedd manwl ar sgorio
DEFRA	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
ERAMMP	Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig
ESC	Dosbarthiad Safle Ecolegol
FC	Y Comisiwn Coedwigaeth
FSC	Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd
INNS	Rhywogaethau Goresgynnol Estron
IPCC	Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd
ISPM	Safonau Rhyngwladol ar gyfer Mesurau Ffytioiechydol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
UKCCRA	Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU
UKCCRA NAP	Cynllun Addasu Cenedlaethol Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU
UKCEH	Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU
UKCP	Rhagolygon Hinsawdd y DU
UKFS	Safon Coedwigaeth y DU

Ymhelaethir ar fyrfoddau a rhai o'r termau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yng ngeirfa'r rhaglen:
<https://erammp.cymru/geirfa> (Cymraeg) <https://erammp.wales/en/glossary> (Saesneg)

Cynnwys

1. Cyflwyniad i Atodiad-3	2
2. Cynaliadwyedd, Risg a Gwytnwch	3
2.1 Rheoli Risg Newid Hinsawdd	4
2.2 Polisi Newid Hinsawdd a Choedwigaeth	4
3. Risg ac Effeithiau Newid Hinsawdd ar gyfer Coedwigaeth yng Nghymru	6
3.1 Amodau Hinsawdd Presennol yng Nghymru	6
3.2 Data Hinsawdd	6
3.3 Rhagolygon ac Effeithiau Newid Hinsawdd yn y Dyfodol i Gymru	6
3.4 Effeithiau Newid Hinsawdd ar Goedwigaeth yng Nghymru	7
4. Effeithiau Newid Hinsawdd ar Addasrwydd a Dethol Rhywogaethau Coed yng Nghymru	10
4.1 Cyfansoddiad Rhywogaethau Coed mewn Coedwigoedd	10
4.2 Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar addasrwydd rhywogaethau coed	11
4.3 Methodoleg a dull Dosbarthu Safle Ecolegol	12
4.4 Addasrwydd rhywogaethau ESC o dan ragolygon hinsawdd yng Nghymru yn y dyfodol	12
4.5 Addasrwydd Bioffisegol a Dosbarthiad Tir Amaethyddol	15
4.6 Cymhariaeth o Ganlyniadau Dosbarthiad Safle Ecolegol (ESC) a Model Addasrwydd Bioffisegol	16
4.7 Gwahaniaethau yn y dull modelu	17
4.8 Cymhwyso'r Dosbarthiad Safle Ecolegol i'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol	17
4.9 Gwaith yn y dyfodol ar addasrwydd rhywogaethau ac argaeledd tir	18
4.10 Dewis rhywogaethau ar gyfer gwydnwch	18
5. Newid Hinsawdd, Coedwigaeth a Gwynt	20
6. Newid Hinsawdd, Coedwigaeth a'r Perygl o Danau Gwylt	22
6.1 Tanau Coedwig	22
6.2 Agweddau dynol ar y risg o danau gwylt	23
6.3 Effeithiau newid yn yr hinsawdd	24
7. Newid Hinsawdd, Coedwigaeth a'r Risg o Sychder	25
8. Iechyd Coed	28
9. Effeithiau Newid Hinsawdd ar Ddarpariaeth Gwasanaeth Ecosystem Coedwig	35
9.1 Effeithiau ar wasanaethau ecosystem ddiwylliannol	35
9.2 Effeithiau ar reoleiddio a gwasanaethau cynnal a chadw	36
9.3 Effeithiau ar ddarparu gwasanaethau: bioamrywiaeth a chynhyrchion coedwig	38
10. Risg Newid Hinsawdd i'r Sector Coedwigaeth	40
11. Crynodeb ar gyfer Paratoi at y Dyfodol	42
11.1 Adeiladu Gwydnwch ac Addasu	42
11.2 Cyflawni Gwydnwch	43
12. Cyfeiriadau ar gyfer Atodiad-3	45

1. CYFLWYNIAD I ATODIAD-3

Mae coedwigoedd yng Nghymru yn darparu ystod eang o wasanaethau ecosystem (archwilir yn Atodiad-5 / Adroddiad ERAMMP-37: *Gwasanaethau Ecosystem*), fodd bynnag, mae coed a choedwigoedd yn wynebu cyfuniad heriol o bwysau gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, llygredd, darnio, rhywogaethau goresgynnol, a phlâu a chlefydau, sy'n bygwth y gallu i sicrhau'r buddion hyn.

Yn yr Atodiad hwn rydym yn ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd a'r bygythiad cynyddol gan blâu a chlefydau ar goedwigoedd yng Nghymru, gyda ffocws ar ehangu coetir a rheoli coetir sydd heb ei reoli neu sydd heb ei reoli'n ddigonol. Rydym yn archwilio mesurau addasu posibl i gynyddu gwytnwch coedwigoedd a'r sector coedwigaeth yng Nghymru a sicrhau bod buddion yn cael eu darparu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Atodiad hwn yn dechrau gyda throsolwg o risg, gwytnwch a pholisi newid yn yr hinsawdd (Adran 2) ac yna crynodeb o effeithiau tebygol newid yn yr hinsawdd ar goedwigaeth yng Nghymru (Adran 3). Archwilir risgiau a mesurau gwytnwch penodol, gan gynnwys newidiadau mewn addasrwydd a chynhyrchedd rhywogaethau, risg gwynt, tân a sychder yn Adrannau 4-7. Mae iechyd coed a phlâu a phathogenau coedwigaeth yn cael eu hystyried yn Adran 8. Mae effeithiau newid hinsawdd ar ddarpariaeth gwasanaeth ecosystem yn cael eu hystyried yn Adran 9 ochr yn ochr â rôl fuddiol coedwigoedd mewn gwytnwch i sectorau eraill, a'r risg ehangach o newid yn yr hinsawdd ar y sector coedwigaeth yn Adran 10. Cyn gorffen gydag archwiliad o fesurau adeiladu gwytnwch ac addasu yn Adran 11.

2. CYNALIADWYEDD, RISG A GWYTNWCH

Mae rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy yn thema sylfaenol yn Strategaeth Coetir i Gymru (2018) a Safon Coedwigaeth y DU (UKFS 2017) lle y'i diffinnir fel 'stiwardiaeth a defnydd o goedwigoedd a thiroedd coedwig mewn ffordd, ac ar gyfradd, sy'n cynnal eu bioamrywiaeth, cynhyrchiant, gallu i adfywio, bywiogrwydd a'u potensial i gyflawni, nawr ac yn y dyfodol, swyddogaethau ecolegol, economaidd a chymdeithasol perthnasol, ar lefelau lleol, cenedlaethol a byd-eang, nad yw'n achosi niwed i ecosystemau eraill.' Elfen annatod yw parhau i ddarparu buddion i'r dyfodol.

Mae coedwigoedd y DU yn wynebu ystod eang o bwysau sy'n bygwth eu swyddogaethau ecosystem craidd a'u gallu i ddarparu ystod o fuddion, nwyddau a gwasanaethau, gan gynnwys llygredd, darnio, rhywogaethau goresgynnol, newid yn yr hinsawdd a phlâu a phathogenau. Felly mae gwytnwch coedwigoedd yn thema ganolog mewn rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy. Diffinnir gwytnwch yn ôl y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd (IPCC 2012) fel "gallu system a'i chydannau i ragweld, ymgorffori, darparu ar gyfer, neu adfer o effeithiau digwyddiad peryglus mewn modd amserol ac effeithlon, gan gynnwys trwy sicrhau bod ei strwythurau a'i swyddogaethau sylfaenol hanfodol yn cael eu cadw, eu hadfer neu eu gwella". Gwahaniaeth pwysig ar gyfer gwytnwch yn y sector coedwigaeth, lle gall amcanion rheoli ymgorffori elfennau ecolegol ac ariannol, yw'r gwahaniaeth rhwng gwytnwch ecolegol, gwytnwch gweithredol a gwytnwch ariannol. Mae gwytnwch yn cyfeirio at allu system i osgoi niwed gan risg allanol. Elfen allweddol o wytnwch yw deall y risgiau posibl i system, ac i wneud hynny mae angen i ni ddeall risg yn well.

Mae'r IPCC (2014) yn nodi bod "risg yn aml yn cael ei chynrychioli fel tebygolrwydd y bydd digwyddiadau peryglus neu dueddiadau yn digwydd wedi'u lluosio â'r effeithiau pe byddai'r digwyddiadau neu'r tueddiadau hyn yn digwydd. Mae risg yn deillio o ryngweithio bregusrwydd, amlygiad a pherygl." Mae hyn yn ymgorffori dau ddiffiniad o risg, y cyntaf yw cyfuniad o effeithiau (canlyniadau) risg a'r tebygolrwydd y bydd y risg honno'n digwydd. Yr ail, ar gyfer digwyddiad risg a allai achosi effeithiau negyddol, y rhyngweithio rhwng bregusrwydd (tueddiad i niwed a diffyg gallu i wella), amlygiad (presenoldeb mewn lleoliad a allai gael ei effeithio'n andwyol), a pherygl (digwyddiad posibl y digwyddiad risg). Yn seiliedig ar y diffiniadau hyn, er mwyn deall a modelu risg gyfredol ac yn y dyfodol i goedwigoedd yng Nghymru, mae angen i ni ddeall yr ystod o risgiau posibl a'u heffeithiau, y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd, tueddiad y system i niwed, gallu system i wella, a'r tebygolrwydd y gallai'r lleoliad gael ei effeithio. Yn lle cymhlethu ein dealltwriaeth, gellir ystyried y cydrannau hyn fel ystod o lwybrau posibl i leihau risg a chynyddu gwytnwch.


Er bod y diffiniadau o wytnwch a risg yn berthnasol i newid yn yr hinsawdd ac iechyd coed, nod allweddol addasu, fel y'i diffinnir yn UKFS (2018) yw lleihau risg ac effeithiau'r hinsawdd sy'n newid ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a chynyddu gwytnwch y goedwig, gan gynnwys ei gallu i wella. Felly, mae mesurau addasu yn cyfeirio'n benodol at reoli risg a chynyddu gwytnwch mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd. Gan fod rhyngweithio rhwng newid yn yr hinsawdd ac iechyd coed, gellir defnyddio mesurau addasu i ddisgrifio rhai elfennau o gynyddu gwytnwch yn erbyn plâu a phathogenau. Mae'r cysyniad o reoli risg yn sylfaenol i addasu, ac mae'r gwahanol gydrannau risg yn cyflwyno ystod o ddulliau o addasu.

2.1 Rheoli Risg Newid Hinsawdd

Mae Polisi Newid yn yr Hinsawdd Cenedlaethol a Rhanbarthol a chanllawiau'r sector yn dilyn fframwaith asesu risg newid yn yr hinsawdd strategol ac ailadroddol (e.e. Rhaglen Addasu Genedlaethol Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU (UKCCRA NAP)) i gynnig llwybr i wytnwch, sy'n cynnwys y camau canlynol:

- 1) nodi risgiau posib
- 2) asesu risgiau ac effeithiau
- 3) adnabod a dewis strategaethau lleihau risg (addasu)
- 4) monitro, gwerthuso ac adolygu

Mae'r Atodiad hwn yn dilyn y dull hwn yn ei strwythur (Ffigur 2-1).



Ffigur 2-1 Proses Rheoli Risg

2.2 Polisi Newid Hinsawdd a Choedwigaeth

Mae Deddf Newid Hinsawdd (2008) yn gosod targedau'r DU ar gyfer lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn diffinio gofynion sy'n gysylltiedig ag addasu, sy'n cynnwys asesiadau risg newid yn yr hinsawdd bob pum mlynedd a rhaglenni addasu cenedlaethol i fynd i'r afael â'r risgiau hyn.

Yng Nghymru, mae Rhan 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) yn ategu Deddf Newid Hinsawdd y DU (2008). Cynhaliwyd Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU (UKCCRA) yn 2012 a 2017 (Llywodraeth y DU 2012, 2017) ac mae'n cynnwys crynodeb o'r risgiau i Gymru yn ogystal â risgiau ar gyfer coedwigaeth y DU. Yn sail i bob CCRA mae Adroddiad Tystiolaeth a gynhaliwyd gan yr is-bwyllgor addasu (ASC). Mae adroddiad tystiolaeth diweddaraf UKCCRA yn cynnwys 'Crynodeb ar gyfer Cymru' (ASC 2016).

Ail Gynllun Ymaddasu Cymru i Newid yn yr Hinsawdd, *Ffyniant i Bawb: Cymru sy'n ymwybodol o'r Hinsawdd* (Llywodraeth Cymru 2019) yw strategaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd yn UKCCRA. Mae canllawiau penodol ar gyfer y sector coedwigaeth hefyd wedi'u cynnwys yn 'Coetiroedd i Gymru' (Llywodraeth Cymru 2018) sy'n nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer coedwigaeth Cymru. Mae'r holl ddogfennau'n amlinellu pwysigrwydd gwytnwch i newid yn yr hinsawdd a phlâu a phathogenau coedwigoedd.

3. RISG AC EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD AR GYFER COEDWIGAETH YNG NGHYMRU

3.1 Amodau Hinsawdd Presennol yng Nghymru

Fel y disgrifir yn y Crynodeb ar gyfer Cymru (ASC 2016) yn Adroddiad Tystiolaeth Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU (2017), mae gan Gymru hinsawdd forol gyda'r prif wyntoedd o'r gorllewin a'r de-orllewin o'r Iwerydd. Mae'r tywydd yn fwyn, cymylog, gwlyb a gwyntog, gydag amrywiadau rhanbarthol yn faint o heulwen, glawiad a thymheredd oherwydd amrywiadau daearyddol eang y wlad. Mae'r glawiad blynyddol uchaf ar gyfartaledd yn Eryri a Bannau Brycheiniog, gyda'r isaf mewn rhanbarthau arfordirol ac yn y dwyrain. Mae'r glawiad yn uwch yn ystod misoedd y gaeaf na misoedd yr haf.

3.2 Data Hinsawdd

Mae'r ail Asesiad Risg Newid Hinsawdd a'r asesiad cyfredol (CCRA; Llywodraeth y DU 2017) ac Adroddiad Tystiolaeth CCRA (CCC 2016; ASC 2016) yn seiliedig ar set ddata Rhagolygon yr Hinsawdd¹ 2009 y DU (UKCP09; y Swyddfa Dywydd 2009). Ar hyn o bryd mae ein prif sylfaen dystiolaeth ar gyfer deall effeithiau newid yn yr hinsawdd ar goedwigaeth (fel ar gyfer sectorau eraill) hefyd yn deillio o ragolygon UKCP09. Y rhain ar hyn o bryd yw ein ffynonellau dystiolaeth gorau sydd ar gael ac fe'u derbynnir yn eang gan academyddion a llunwyr polisi. Mae'r mapiau o addasrwydd rhywogaethau ecolegol a ddarperir yn Ffigur 4-1 (ar tud.10) hefyd yn ymgorffori'r set ddata hon.

Rhagolygon Hinsawdd y DU 2018 (UKCP18, y Swyddfa Dywydd 2018) yw'r set awdurdodol ddiweddaraf o ddata newid yn yr hinsawdd sydd ar gael yn y DU. Mae crynodeb o'r rhagolygon a'r effeithiau ar gyfer Cymru ar gael yn 'prif ganfyddiadau UKCP18' (UKCP 2019) ac fe'u cynhwysir yn Ail Gynllun Ymaddasu i Newid Hinsawdd Cymru (Llywodraeth Cymru 2019). Mae'r tueddiadau cyffredinol a'r canfyddiadau allweddol o'r set ddata ddiweddaraf hon yn gyson ag UKCP09 (y Swyddfa Dywydd 2009), a rhagwelir y bydd data cydraniad uwch yn caniatáu gwell rhagolygon rhanbarthol, er y bydd cywirdeb data gofodol arall yn cyfyngu ar gywirdeb, e.e. canlyniadau arolwg pridd. Y bwriad yw y bydd dystiolaeth allweddol ar gyfer coedwigaeth yn cael ei diweddarau cyn, ac yn, y trydydd Adroddiad Tystiolaeth Asesiad Risg Newid Hinsawdd yn 2022, wrth i ddata UKCP18 ddod ar gael ar gyfer modelu coedwigaeth ac wrth i ganlyniadau gael eu cyhoeddi.

3.3 Rhagolygon ac Effeithiau Newid Hinsawdd yn y Dyfodol i Gymru

Crynoir yr amcanestyniadau newid yn yr hinsawdd yng Nghrynodeb ar gyfer Cymru Adroddiad Tystiolaeth Newid Hinsawdd (ASC 2016) yma ac yn Nhabl 3-1. O dan senario allyriadau canolig UKCP09 (A1B), rhagwelir y bydd tymereddau cymedrig

¹ <https://www.metoffice.gov.uk/research/approach/collaboration/ukcp/index>

rhanbarthol yr haf yn cynyddu rhwng 0.9 - 4.5°C erbyn yr 2050au o gymharu â llinell sylfaen 1961-1990, ac mae glawiad yn yr haf yn debygol o leihau. Mae hyn yn debygol o arwain at gynnydd yn amllder a difrifoldeb tonnau gwres, sychder yr haf, a risg uwch o danau gwyllt. Mae dyddodiad y gaeaf yn fwyaf tebygol o gynyddu, gyda rhagamcanion yn amrywio rhwng -2 - i +31%, gan arwain at gynnydd mewn llifogydd rhanbarthol a thymhorol, tirlithriadau, a mwy o ddifrod stormydd.

3.4 Effeithiau Newid Hinsawdd ar Goedwigaeth yng Nghymru

Crynoir effeithiau rhagamcanol newid yn yr hinsawdd ar goedwigaeth yn y DU yn Morison a Matthews (2016) a Nicoll (2016), ac ar gyfer Cymru yn Nodyn Ymchwil 301 y Comisiwn Goedwigaeth (Ray 2008) a'r ail Grynodedb ar gyfer Cymru yn Adroddiad Tystiolaeth Asesiad Risg Newid Hinsawdd (ASC 2016). Gellir rhannu'r effeithiau mawr yn newidiadau graddol, megis newidiadau yn addasrwydd rhywogaethau coed, a digwyddiadau eithafol, gan gynnwys risg uwch o wynt, tanau gwyllt a sychder. Mae addasrwydd rhywogaethau coed yn cyfeirio at gydnawsedd rhywogaeth coeden ag amodau'r safle, gan gynnwys priodweddau pridd a hinsawdd fel y disgrifir yn Adran 4 ac mae'n amrywio o rai nad ydynt yn addas i ymylol, addas ac addas iawn. Mae deall addasrwydd yn hanfodol ar gyfer pob math o goedwig, gan ei fod yn sail i iechyd coed a chlwtwr o goed ynghyd â thwf a chynhyrchedd. Crynoir effeithiau newid yn yr hinsawdd ar goedwigaeth yng Nghymru yn Nhabl 3-2 a'u harchwilio'n fanwl yn Adrannau 4 i 7.

Tabl 3-1 Newid Hinsawdd ac effeithiau Rhagamcanol yng Nghymru

Newidyn Hinsawdd	Newid hyd yn hyn	Beth sy'n cael ei ragamcanu yn y dyfodol?	Pendantrwydd	Cysylltiedig â newid hinsawdd?	Effeithiau	Gwahaniaethau Rhanbarthol
Tymereddau'r Haf	Cynhesach	Cynhesach	Uchel	Ydy	Newid i ddsbarthiad rhywogaethau. Mae tonnau gwres yn effeithio ar seilwaith, iechyd a'r amgylchedd	Cynhesach yn Ne Cymru
Tymereddau'r Gaeaf	Cynhesach	Cynhesach	Uchel	Ydy	Newid i ddsbarthiad rhywogaethau. Mwy o risg o blâu a chlefydau	Cynhesach yn Ne Cymru
Glawiad yn y Gaeaf	Gwlypach	Gwlypach	Uchel	Amhendant	Llifogydd tymhorol a rhanbarthol, tirlithriadau	

Glawiad yn yr Haf	Ni chanfuwyd unrhyw duedd	Sychach	Uchel	Amhendant	Mwy o risg o sychder a thanau gwyllt	Sychach yn Ne Cymru
Stormydd Gwynt	Ni chanfuwyd unrhyw duedd	Amhendant, cynnydd mewn gwyntoedd eithafol	Canolig	Amhendant	Difrod storm i eiddo, busnesau, yr amgylchedd	Risg uwch mewn ardaloedd ucheldirol

Ffynhonnell: Met Office www.metoffice.gov.uk/weather/climate-change/effects-of-climate-change

Mae risgiau penodol ar gyfer ehangu coetir yn gysylltiedig â bregusrwydd cynyddol coed ifanc, sydd newydd eu plannu i straen a digwyddiadau eithafol o gymharu â chlystyrau o goed sefydledig. Maent yn fwy agored i niwed oherwydd deifio, rhew hwyr ac mae ganddynt gyfraddau marwolaeth uwch yn ystod tonnau gwres a sychder na chlystyrau sefydledig gyda systemau gwreiddiau dyfnach. Ystyrir y risgiau hyn yn fanylach mewn adrannau dilynol.

Gall risgiau i goedwigoedd sydd heb eu rheoli'n ddigonol gynnwys mwy o risg o sychder (gweler Adran 7), a risg uwch o danau gwyllt oherwydd lefelau uwch o bren marw sy'n gweithredu fel llwyth tanwydd, a llwybrau mynediad a rhwystrau tân cyfyngedig (gweler 6). Efallai y bydd perchnogion, rheolwyr a defnyddwyr hamdden yn ymweld â choetir heb ei reoli yn llai aml, felly mae risgiau fel tanau, coed wedi'u diwreiddio gan y gwynt, plâu neu bathogenau yn llai tebygol o gael eu canfod, er y gall fod llai o risg o danau damweiniol. Gall niwed i glystyrau o goed, megis gan y gwynt yn eu dadwreiddio, arwain at ddifrod dilynol gan blâu neu bathogenau os na chaiff ei glirio (gweler 8). Mae coetiroedd heb eu rheoli gyda bioamrywiaeth is yn debygol o fod yn llai gwydn i newid na choetir a reolir yn dda (adolygwyd yn Bellamy et al. 2018). Gweler hefyd Atodiad-2/ERAMMP Adroddiad-34: *Rheoli Coetir* heb ei Reoli'n Ddigonol

Tabl 3-2 Effeithiau Rhagamcanol Newid Hinsawdd ar Goedwigaeth yng Nghymru

Newidyn hinsawdd	Bregusrwydd coedwigaeth	Bregusrwydd creu coetir	Bregusrwydd coetiroedd sydd heb eu rheoli'n ddigonol	Opsionau addasu	Buddion coedwigaeth
Cynnydd mewn Tymheredd yn yr Haf	Addasrwydd rhywogaethau. Deifio a marwolaethau mewn coed ifanc. Mwy o risg tân. Risg uwch yn Ne Cymru.	Risg sefydlu, deifio a marwolaeth	Risg sychder, difrod oherwydd deifio, risg tân	Rhywogaethau, tarddiad a dewis safle. Teneuo. Rheoli risg tân. Monitro	Cynnydd posibl mewn cynhyrchiant o gyfradd twf uwch a thymor tyfu hirach ar rai safleoedd
Tymheredd Cynhesach yn y Gaeaf	Mwy o risg o blâu a phathogenau	Mwy o risg o blâu a phathogenau	Mwy o risg o blâu a phathogenau	Cynnydd mewn amrywiaeth rhywogaethau, monitro a chynllunio wrth gefn	Mwy o dymor tyfu, llai o farwolaethau yn y gaeaf, mwy o ddewis o rywogaethau


Cynnydd mewn Glawiad yn y Gaeaf	Difrod i wreiddiau mân a llai o dwf ar safleoedd sy'n dueddol o fod yn ddwrlawn. Difrod i'r pridd. Cyfyngiadau mynediad	Perygl sefydlu oherwydd llifogydd, tir dwrlawn, erydiad pridd	Llifogydd, erydiad pridd, tirlithriadau.	Dewis safle, draenio a pheirianeg. Rheolaeth weithredol	-
Gostyngiad mewn Glawiad yn yr Haf	Addasrwydd rhywogaethau, difrod oherwydd sychder a marwolaeth, yn enwedig priddoedd sych ac yn ne Cymru. Mwy o risg tân	Risg sefydlu oherwydd difrod sychder a marwolaethau	Risg sychder, risg tân	Rhywogaethau, tarddiad a dewis safle. Cynllun rheoli (teneuo, cymysgeddau). Rheoli risg tân Monitro	-
Cynnydd mewn stormydd a digwyddiadau gwynt eithafol	Gwyntoedd cymedrol ar safleoedd agored a phriddoedd gwlyb. Bregusrwydd i wyntoedd eithafol	-	Difrod gwynt, risg dilynol gan blâu a chlefydau	Dewis safle a rhywogaeth, dewis rheoli (tenau/dim tenau gydag oedran, lleoliad a chyflwr). Cynllunio wrth gefn	-

4. EFFEITHIAU NEWID HINSAWDD AR ADDASRWYDD A DETHOL RHYWOGAETHAU COED YNG NGHYMRU

4.1 Cyfansoddiad Rhywogaethau Coed mewn Coedwigoedd

Mae'r amodau hinsoddol a daearyddol presennol yng Nghymru yn cynnal ystod eang o fathau o goedwigoedd, gan gynnwys coetiroedd coed derw ucheldir brodorol, coed ynn a llydanddail cymysg, yn ogystal â choedwigoedd conwydd cynhyrchiol. Cyflwynir cyfansoddiad rhywogaethau mewn coedwigoedd yng Nghymru, yn rhywogaethau llydanddail a chonwydd, yn Ffigur 4-1. Mae gan Gymru amrywiaeth o rywogaethau cymharol gyfoethog o'i chymharu â'r DU gyfan. Sbrîws Sitka yw'r prif rywogaethau conwydd cynhyrchiol ar draws coedwigoedd y DU, ac yng Nghymru mae'n meddiannu bron i 30% o'r arwynebedd coedwig sydd â stoc, sy'n creu bregusrwydd posibl i ddifrod gan bathogen neu bla fel chwilog rhisgl sbrîws (*Dendroctonus micans* a *Ips typographus*). Fodd bynnag, sbrîws Sitka yw'r rhywogaeth fasnachol fwyaf gwerthfawr yn niwydiant coedwigaeth y DU ac mae galw mawr amdani, mae'n gadarn, yn tyfu'n gyflym ac mae ganddi farchnadoedd sydd wedi hen ennill eu plwyf. Yn yr Adrannau nesaf rydym yn adolygu effeithiau ar addasrwydd rhywogaethau ac yn archwilio dewis rhywogaethau ar gyfer gwytnwch yn 4.10.

Ardaloedd coetir yng Nghymru fesul rhywogaeth



Ffigur 4-1 Arwynebedd Coetir Cymru yn ôl Rhywogaethau, data gan Ystadegau Coedwigaeth (2019) a'r Rhestr Goedwigaeth Genedlaethol (2014a, b)

Mae'r risgiau i goetir brodorol a choedwig gonwydd gan hinsawdd sy'n newid yn gynhenid wahanol, oherwydd eu gwahanol fioamrywiaeth, darpariaeth gwasanaeth

ecosystem ac amcanion rheoli. Mae coedwigoedd brodorol a choetiroedd hynafol yn cynnal lefelau uchel o fioamrywiaeth ac yn darparu cynefinoedd gwerthfawr i gymunedau cysylltiedig, gan gynnwys planhigion, ffyngau, micro-organebau a phryfed. Maent yn cynnwys ac yn dibynnu ar rywogaethau allweddol, y gall hinsawdd sy'n newid effeithio ar bob un ohonynt ac felly maent yn fwy agored i newid graddol a digwyddiadau eithafol. Gall rhywogaethau llydanddail anghynhyrchiol barhau i dyfu'n araf ar safleoedd lle mae addasrwydd yn dod yn is, ond maent yn debygol o fod yn llai cadarn, yn cefnogi llai o fioamrywiaeth ac o bosibl yn fwy agored i niwed gan bla neu bathogen (gweler Atodiad-1 / ERAMMP Adroddiad-33: *Bioamrywiaeth*).

Mae amcanion rheoli coedwigoedd masnachol yn ariannol yn ogystal ag yn ecolegol ac yn gymdeithasol, felly mae coedwigoedd cynhyrchiol hefyd yn agored i risg ariannol, ac yn fwy felly o ddigwyddiadau eithafol a difrod gan bla neu bathogen, yn enwedig yn yr 50 mlynedd nesaf, wrth i addasrwydd y rhywogaeth, yn enwedig rhywogaethau conwydd allweddol barhau i fod yn uchel. Mae cynyddu amrywiaeth rhywogaethau coed mewn coedwigoedd ar safleoedd cynhyrchiol yn cael ei ystyried yn strategaeth addasu allweddol i leihau risg, yn enwedig yn erbyn difrod gan bla neu bathogen. Mae dewis rhywogaethau mewn planhigfa fel arfer yn cael ei gyfyngu gan alw'r farchnad yn ogystal ag addasrwydd a chyfraddau tyfu. Fel y disgrifiwyd, mae'r galw cyfredol am bren gwyn sbriws Sitka yn creu bregusrwydd cynhenid oherwydd diffyg amrywiaeth rhywogaethau. I'r gwrthwyneb, arweiniodd y torri statudol diweddar o glystyrau o goed llarwydd oedd wedi'u heintio a *Phytophthora* at newid i brosesu ac ymddygiad defnyddwyr oherwydd y nifer uchel o ddeunydd a ddaeth i'r farchnad. Y màs critigol hwn sydd wedi sbarduno newid.

4.2 Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar addasrwydd rhywogaethau coed

Mae addasrwydd rhywogaethau coed ar gyfer safle yn amrywio o rai nad ydynt yn addas i rai sy'n addas iawn ac mae'n sail i iechyd coed a chlystyrau o goed yn ogystal â thwf a chynhyrchedd. Felly, mae'n bwysig deall sut mae addasrwydd yn amrywio'n ofodol ac yn dymhorol ar gyfer pob math o goedwig ac amcanion rheoli. Fel y crynhoir yn Nhabl 3-2 bydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar addasrwydd a chynhyrchedd rhywogaethau coed, gyda newidiadau mwy eithafol yn ne Cymru. Bydd yr hinsawdd gynhesach a ragwelir yn arwain at gyfleoedd i gynyddu addasrwydd ar safleoedd lle na fydd argaeledd maetholion a dŵr yn dod yn gyfyngol yn y dyfodol tymor byr. Fodd bynnag, bydd llai o law yn yr haf yn achosi sychder yn amlach a bydd yn cyfyngu ar ddewis rhywogaethau ar safleoedd â phriddoedd sy'n draenio'n rhydd i rywogaethau sy'n gallu gwrthsefyll sychder. Bydd newidiadau yn nosbarthiad tymhorol glaw yn arwain at lifogydd yn amlach yn y gaeaf a bydd yn cyfyngu ar ddewis rhywogaethau ar safleoedd sy'n dueddol o fod yn ddwrlawn.

Gellir modelu addasrwydd rhywogaethau yn ofodol ar gyfer gorwelion amser presennol ac yn y dyfodol gan ddefnyddio data ecolegol a bioffisegol a rhagolygon newid yn yr hinsawdd. Yn yr adrannau nesaf, rydym yn disgrifio ac yn cymharu cymhwysiad dau fodel addasrwydd rhywogaethau coed i Gymru ac yn awgrymu gwaith pellach i gefnogi polisi a phroses gwneud penderfyniadau ymarferwyr. Crynhoir y goblygiadau ar gyfer dewis rhywogaethau yn Adran 4.10.

4.3 Methodoleg a dull Dosbarthu Safle Ecolegol

Mae'r offeryn cefnogi penderfyniadau ynghylch dosbarthu safle ecolegol (ESC) yn caniatáu asesu addasrwydd ecolegol ar gyfer ystod eang o rywogaethau coed ar gyfer safle penodol. Mae'r dull ESC yn asesu pedwar ffactor hinsawdd a dau ffactor pridd i ddarganfod addasrwydd ecolegol; tymheredd cronedig, diffyg lleithder (glawiad), agwedd (gwyntogrwydd) a chyfandiroledd, a phatrymedd lleithder y pridd a phatrymedd maetholion y pridd. Mae addasrwydd ecolegol yn amrywio ar raddfa 0-1, gydag isafswm gwerth yr holl ffactorau yn cyfyngu ar addasrwydd. Mae gwerth addasrwydd yn trosi i gategoriâu fel a ganlyn, 0- 0.29 anaddas, 0.3 - 0.49 ymylol, 0.5 - 0.74 addas, 0.75 - 1 addas iawn. Mae cynhyrchiant posibl (dosbarth cynnyrch, m³ y flwyddyn) yn cael ei gyfrifo fel y sgôr addasrwydd wedi'i luosi â'r dosbarth cynnyrch uchaf posib ar gyfer pob rhywogaeth. Gall rhywogaeth oroesi a thyfu'n araf ar sgoriau addasrwydd is, gan ffurfio rhan werthfawr o ecosystem, megis ar linellau coed naturiol. Gellir gweld manylion llawn y dull dosbarthu safle ecolegol yn Pyatt et al. (2001).

Mae Forest Research wedi cynnal modelu o addasrwydd rhywogaethau, cynhyrchiant a darparu gwasanaethau ecosystem gan ddefnyddio model Dosbarthu Safle Ecolegol (ESC) gan ddefnyddio data hinsawdd cyfredol ac yn y dyfodol (Beauchamp et al. 2016; Ray et al. 2014; 2019). Defnyddir newidiadau a ragwelir mewn tymheredd a glawiad dros gylchdroi clystyrau o goed mewn coedwig yn ESC i fodlu newidiadau a ragwelir yn addasrwydd a chynhyrchedd rhywogaethau coedwig allweddol. Dim ond newidynnau tymheredd a glawiad sy'n newid o dan senarios hinsawdd yn y dyfodol.

Datblygwyd modelau gan ddefnyddio tystiolaeth wyddonol a barn arbenigol, ond maent ar gyrion neu y tu allan i gwmpas eu hystod a brofwyd o dan ragolygon hinsawdd senario uchel. Mae'r offeryn cefnogi penderfyniadau ESC yn gofyn am asesiad safle manwl gywir a gwybodaeth fanwl am bridd ochr yn ochr â gwybodaeth arbenigol am amodau hinsawdd lleol er mwyn cael ei gymhwyso i glystyrau coedwig unigol gyda'r cywirdeb uchaf. Felly mae modelu ar raddfa fawr sy'n seiliedig ar fapiau pridd ddim ond mor gywir â'r data sylfaenol. Ystyrir mai'r model hwn yw'r gorau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer modelu effeithiau newid yn yr hinsawdd ar goedwigoedd yn y DU ac fe'i defnyddir yn helaeth gan y sector coedwigaeth, ymchwilwyr a llunwyr polisi. Nodir bod modelau rhywogaethau unigol yn llai cadarn o dan newid eithafol wedi'i fodlu. Felly mae'r hyder yn ganolig a'r derbyniad yn uchel. Mae fersiwn ar-lein o offeryn cefnogi penderfyniadau ESC ar gael.²

4.4 Addasrwydd rhywogaethau ESC o dan ragolygon hinsawdd yng Nghymru yn y dyfodol


Cyfrifwyd y data a gyflwynir yn Ffigur 4-2 gan ddefnyddio'r model ESC ar gyfer ERAMMP. Mae'r data hinsawdd llinell sylfaen yn gyfartaledd 20 mlynedd ar gyfer 1981-2000, gyda data rhagamcanol ar gyfer 2020 a 2080 yn defnyddio'r UKCP09 11-

² www.forestdss.org.uk/geoforestdss/

RCM, sy'n dilyn senario allyriadau canolog; cyflwynir y newid mewn addasrwydd ecolegol hefyd.

Mae'r rhagamcanion ar gyfer sbriws Sitka yn dangos addasrwydd ecolegol yn gostwng o fod yn addas yn bennaf ac yn addas iawn yn y llinell sylfaen a 2020 i addas ac ymylol yng nghanolbarth Cymru, gorllewin Cymru a gogledd Cymru erbyn 2080; mae gostyngiad mwy mewn addasrwydd yn ne Cymru, lle mae'n dod yn anaddas erbyn 2080. Mae addasrwydd yn cynyddu ar uchderau uwch. At ei gilydd, mae'r data wedi'i fodlu yn dangos y bydd sbriws Sitka yn parhau i fod yn ddewis rhywogaeth addas yng Nghymru, ac eithrio yn Ne Cymru. Fodd bynnag, sbriws Sitka yw'r rhywogaeth amlycaf yng Nghymru, ac yn y DU, ac mae llawer o strategaethau i gynyddu gwytnwch i newid yn yr hinsawdd yn cefnogi arallgyfeirio rhywogaethau.

O dan amodau sylfaenol mae ffawydd yn addas ac yn addas iawn mewn ardaloedd ar uchderau is, gydag addasrwydd yn gostwng i ymylol ac anaddas ar uchderau uwch. Rhagwelir y bydd addasrwydd yn dirywio erbyn 2080 i anaddas yn ardaloedd deheuol a gorllewinol ac ymylol mewn ardaloedd dwyreiniol. Mae addasrwydd yn cynyddu ychydig mewn rhai ardaloedd o uchderau uwch ond yn parhau i fod yn anaddas mewn eraill.



Mae'r dderwen mes digoes yn dangos patrwm amrywiol o addasrwydd ym mhob cyfnod amser. Mae addasrwydd yn parhau i fod yn addas iawn mewn ardaloedd dwyreiniol, ac yn addas mewn ardaloedd gorllewinol gwasgaredig hyd at 2080. Mae'n anaddas ar uchderau uwch. Y dderwen mes coesynnog yw'r rhywogaeth dderw fwyaf cyffredin yng Nghymru. Mae addasrwydd yn amrywio o addas iawn i anaddas ar

uchderau uwch yn ystod y cyfnod llinell sylfaen, gydag addasrwydd yn gostwng i addas ac ymylol erbyn 2080, yn parhau i fod yn anaddas mewn sawl ardal ac yn addas iawn mewn ardaloedd dwyreiniol-canolbarth.

Mae addasrwydd wedi'i fodelu ar gyfer bedw arian yn gostwng o addas iawn yn ystod y cyfnod llinell sylfaen i fod yn addas yn 2020 ac ymhellach i anaddas yn ne Cymru ac yn ymylol yng nghanolbarth a gogledd Cymru erbyn 2080. Mae addasrwydd yn cynyddu mewn rhai ardaloedd ar uchderau uwch o anaddas i addas ac ymylol. Erbyn 2080, mae bedw arian yn parhau i fod yn ymylol yn bennaf gyda phocedi o dir addas ar draws canolbarth a gogledd Cymru.

At ei gilydd, mae addasrwydd rhywogaethau a ragwelir yn dirywio ar gyfer y rhywogaethau wedi'u modelu hyn, ond mae'r holl rywogaethau'n parhau i fod yn addas neu'n addas iawn mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Mae gostyngiadau addasrwydd yn uwch yn ne Cymru, lle mae llawer o rywogaethau'n debygol o ddod yn anaddas oherwydd glawiad is yn yr haf a thymheredd uwch yn yr haf. Mae addasrwydd yn parhau i fod yn uwch mewn ardaloedd gogleddol, canolog a dwyreiniol ac mae cynnydd wedi'i fodelu mewn addasrwydd ar uchderau uwch, er bod yn rhaid ystyried hyn ochr yn ochr â'r risg o wynt.

4.5 Addasrwydd Bioffisegol a Dosbarthiad Tir Amaethyddol

Fe wnaeth adroddiad diweddar gan Environment Systems (2020) ar gyfer y Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd fodelu addasrwydd bioffisegol sbriws Sitka a'r dderwen mes digoes, gyda rhywfaint o ddadansoddiad wedi'i ddarparu ar gyfer y ffawydden, gan ddefnyddio data hinsawdd UKCP18 ar gyfer heddiw, 2050 a 2080, ar gyfer senarios allyriadau canolig ac uchel. Mae'r modelau'n ymgorffori data Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) ar gyfer priodweddau pridd, sy'n sgorio pridd ar wlybaniaeth, sychder, dyfnder, graddiant a chynnwys cerrig. Mae'r data hinsawdd yn seiliedig ar lawiad cyfartalog blynyddol, tymheredd cronodig, a ffactorau lleol. Yn ogystal, mae data am rew, gwynt, halltedd a risg llifogydd yn cael ei droshaenu, a'i gyfuno i roi categori addasrwydd o addas, cyfyngedig neu anaddas. Mae haen cyfyngiad a sensitifrwydd yn cael ei throshaenu i eithrio ardaloedd sy'n anaddas i'w plannu yn unol â'r canllawiau amgylcheddol a pholisi cyfredol, i roi amcangyfrif o'r arwynebedd o dir sy'n addas ar gyfer ehangu coetir o dan amodau heddiw a'r newid yn yr hinsawdd a ragwelir. Mae'r gwaith yn ddatblygiad o brosiect 'Gallu, Addasrwydd a Hinsawdd' Llywodraeth Cymru i fodelu addasrwydd rhywogaethau coed.

Mae canlyniadau'r model yn dangos bod y ffawydden yn anaddas neu fod ei haddasrwydd yn gyfyngedig ar draws y rhan fwyaf o Gymru ac felly cafodd ei disodli gan y dderwen mes di-goes ar gyfer modelu pellach. Mae'r dderwen mes di-goes wedi'i modelu fel addas o dan yr amodau cyfredol ledled Cymru ac eithrio mewn ardaloedd ucheldirol. Mae addasrwydd yn dirywio o dan y senario allyriadau canolig ac ymhellach o dan y senario allyriadau uchel, yn enwedig yn ne Cymru. Mae modelau'n rhagweld y bydd y dderwen mes di-goes yn parhau i fod yn addas mewn rhannau o orllewin Cymru.

Mae sbriws Sitka yn addas iawn ledled Cymru, gydag addasrwydd cyfyngedig yng nghanolbarth Cymru ar uchderau uwch. Mae addasrwydd yn gostwng ychydig erbyn

2050 ac ymhellach erbyn 2080 ond mae'n parhau i fod yn addas dros ardaloedd helaeth o Gymru. Mae addasrwydd yn dirywio ymhellach o dan y senario allyriadau uchel, gan ddod yn llai addas ar uchderau is ac yn fwy addas ar uchderau uwch.

Daw Environment Systems i'r casgliad y bydd arwynebedd y tir y rhagwelir y bydd yn addas ar gyfer y dderwen mes di-goes a sbriws Sitka erbyn 2080 yn dirywio'n sylweddol, ac er mwyn cwrdd ag uchelgeisiau plannu Llywodraeth Cymru, bydd angen plannu mewn ardaloedd sy'n ddarostyngedig i rywfaint o gyfyngiadau bioffisegol lle mae'n bosibl na fydd addasrwydd a thwf yn parhau i fod y gorau.

4.6 Cymhariaeth o Ganlyniadau Dosbarthiad Safle Ecolegol (ESC) a Model Addasrwydd Bioffisegol

Mae'r ddau ddull yn cytuno bod y sail ar gyfer asesu addasrwydd rhywogaethau yn cynnwys asesiad o briodweddau hinsawdd a phridd. Cymhlethir cymhariaeth lawn, uniongyrchol rhwng canlyniadau'r model ESC a modelau bioffisegol Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) gan y gwahanol ddata hinsawdd, data pridd, penderfyniadau gofodol, trothwyon ar gyfer addasrwydd, a gwahanol gategoriâu addasrwydd. Mae rhai tueddiadau eang yn debyg yn y ddau ddull, mae addasrwydd rhywogaethau yn is ar uchderau uwch o dan amodau sylfaenol ac yn gwella ar uchderau uwch o dan senarios hinsawdd yn y dyfodol wrth i straen sychder gael ei leihau. Mae hyn yn rhoi hyder i'r duedd o addasrwydd yn gwella ar uchderau uwch yn y dyfodol, gyda ffynonellau tystiolaeth annibynnol yn dod i'r un casgliadau.

Mae cymhariaeth o ganlyniadau wedi'u modelu ar gyfer sbriws Sitka yn dangos dosraniadau addasrwydd tebyg o dan linell sylfaen ESC ac amodau cyfredol Environment Systems, gyda sbriws Sitka yn addas iawn ledled Cymru gyda llai o addasrwydd ar uchderau uwch. Mae rhagamcanion ar gyfer 2080 o dan y senario allyriadau canolig hefyd yn dangos dosraniadau tebyg o addasrwydd, ac eithrio bod rhagamcanion ESC yn dangos bod sbriws Sitka yn parhau i fod yn addas yn ardaloedd dwyreiniol Cymru, lle mae Environment System yn dangos addasrwydd fel cyfyngedig. Mae addasrwydd yn cynyddu ar rai uchderau uchel o dan y ddau fodel.

Mae cymhariaeth o fapiau addasrwydd ar gyfer y dderwen mes di-goes o dan amodau llinell sylfaen ESC ac amodau cyfredol Environment Systems yn dangos dosbarthiad tebyg o ESC addas ac addas iawn ac amodau safle addas Environment Systems. Mae'r ddau yn dangos bod y dderwen mes di-goes yn anaddas mewn ardaloedd ucheldirol. O gymharu senario allyriadau canolig ESC 2080 ac Environment Systems ar gyfer 2080, mae'r ddau yn dangos gostyngiad mewn addasrwydd ar gyfer y dderwen mes di-goes, sy'n parhau i fod yn anaddas ar uchderau uwch. Mae'r rhagamcanion yn wahanol yn yr ystyr bod ESC yn modelu addasrwydd uwch yn nwyrain Cymru, ond mae Environment Systems yn rhagweld mwy o addasrwydd yng Ngorllewin Cymru.

Mae ESC yn dangos y byddai'r ffawydden wedi bod yn addas o dan y data hinsawdd sylfaenol, ond mae adroddiad Environment Systems yn dangos bod y ffawydden yn anaddas. Mae'r ddau amcanestyniad yn dangos ei bod yn annhebygol o fod yn addas yn 2080 oherwydd sychder. Mae'n werth archwilio ymhellach sut mae'r

ffawydden yn perfformio o dan yr amodau cyfredol a pham mae'r modelau'n wahanol yn y casgliad hwn.

4.7 Gwahaniaethau yn y dull modelu

Un prif wahaniaeth gyda'r dulliau modelu yw bod ESC yn crynhoi priodweddau pridd yn ddau newidyn, sy'n symleiddio cadarn, ac mae adroddiad Environment Systems yn defnyddio categorïau pridd manylach ond ar gydraniad is. Yn nodweddiadol, mae ESC yn cael ei redeg ar gydraniad o 50-250m, wedi'i fodelu yma ar gydraniad o 250m, gyda data hinsawdd yn cael ei ostwng yn ôl yr angen fel bod allbynnau'n berthnasol ar gyfer cymwysiadau gweithredol. Mae hwn yn wahaniaeth sylfaenol gan fod ESC yn offeryn y gellir ei gymhwyso ar bob graddfa, tra bod y modelu ALC yn yr adroddiad yn ddadansoddiad strategol eang ac felly mae'n colli rhywfaint o fanylion.

Mae'r model ESC o bosibl yn tanamcangyfrif addasrwydd o dan ragolygon hinsawdd yn y dyfodol, gan ei fod yn tanbriso gallu pridd i ddal dŵr; mae addasiad i'r model yn cael ei brofi yn Forest Research. Mae'r dull ar gyfer cyfrifo capasiti pridd i ddal dŵr a diffyg lleithder yn debygol o fod yn llai pesimistaidd yn y modelau Environment Systems.

4.8 Cymhwyso'r Dosbarthiad Safle Ecolegol i'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol

Archwiliodd astudiaeth ddiweddar gan Forest Research, ar ran Prifysgol Bangor, y potensial i'r Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) 'tir amaethyddol o ansawdd cymedrol' (is-grŵp 3b) weithredu fel procsi ar gyfer sefydlu coedwigoedd (Bathgate et al. 2020). Defnyddiodd yr astudiaeth hon fodelau a data Dosbarthiad Safle Ecolegol (ESC) ar gydraniad o 250m ar gyfer y cyfnod hinsawdd sylfaenol (1961-1990) a bu hefyd yn ystyried cyfyngiadau/cyfleoedd yn ymwneud â hygyrchedd, parthau glannau'r afon a choetir presennol. Ochr yn ochr ag allbynnau ESC, cafwyd amcangyfrifon o ddal a storio carbon ar gyfer 7 rhywogaeth gonifferaidd a 7 rhywogaeth lydanddail.

Amlygodd modelu ESC y byddai oddeutu 95% o dir dosbarth 3b ALC yng Nghymru yn addas ar gyfer coed sbrîws Sitka, bedw a choed derw. Gostyngodd yr ardal hon i oddeutu 50% ar gyfer rhywogaethau sy'n llai goddefgar o briddoedd gwlypach, fel ffynidwydden Douglas. Nododd y dadansoddiad fod tir gradd 3b ALC yn cynnig cynhyrchiant uwch nag mewn safleoedd sydd â choedwigoedd ar hyn o bryd yng Nghymru ac ar dir ALC 'o ansawdd gwael' (gradd 4). Canfuwyd bod ffynidwydden Douglas a chegid y Gorllewin yn gystadleuol â sbrîws Sitka ar lawer o safleoedd ac, mewn rhai achosion, roedd ffynidwydden Douglas yn perfformio'n well na sbrîws Sitka o ran dal a storio carbon er bod ganddo ddsbarth cynnyrch tebyg neu is.

Er nad oedd ardaloedd sylweddol o dir ALC gradd 3b o fewn 2000m i'r seilwaith ffyrdd presennol, ychydig iawn o safleoedd oedd â llethrau serth a allai effeithio ar derfynau gweithredu peiriannau coedwig. Fodd bynnag, byddai tua 5-10% o dir ALC gradd 3b yn cael ei ystyried ar lan yr afon o ran canllawiau Coedwig a Dŵr y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC), a byddai hyn yn ffafrio coedwigoedd â choed gwern a bedw yn bennaf.

Ni chynhaliwyd dadansoddiad ffurfiol o oblygiadau hinsawdd yn y dyfodol, ond cafodd data UKCP09 ei gynnwys er mwyn cyfeirio ato er mwyn hwyluso dadansoddiad dilynol pe bai angen hynny.

4.9 Gwaith yn y dyfodol ar addasrwydd rhywogaethau ac argaeledd tir

Mae adroddiad Environment Systems (2020) yn darparu estyniad gwerthfawr i fodelu addasrwydd rhywogaethau trwy eithrio ardaloedd cyfyngedig a sensitif a darparu amcangyfrifon o arwynebedd tir sy'n addas ac a allai fod ar gael ar gyfer ehangu coetiroedd. Mae'r cam hwn yn fuddiol i lywio polisi ehangu coetiroedd. Roedd model ERAMMP Quickstart yn troshaenu sensitifrwydd a chyfyngiadau tebyg a gellid ei ddefnyddio hefyd i gyfrifo arwynebedd tir addas ar gyfer ehangu coetiroedd gan ddefnyddio ystod ehangach o rywogaethau gan ddefnyddio'r model ESC.

Mae'r casgliad a wnaed gan Environment Systems, y bydd yn her cyrraedd targedau plannu, yn ddilys, ond gall yr ystod gyfyngedig o rywogaethau a fodelwyd olygu bod y dybiaeth hon yn rhy besimistaidd. Modelwyd dwy rywogaeth yn adroddiad Environment Systems, ond mae rhywogaethau â gwahanol briodweddau hinsoddol ac ecoffisiolegol yn debygol o fod yn addas mewn gwahanol ardaloedd. Er mwyn deall effeithiau llawn newid yn yr hinsawdd ar addasrwydd rhywogaethau coed mewn coedwigoedd yng Nghymru a deall yr effeithiau ar ehangu coetiroedd, mae angen gwaith modelu pellach gan ddefnyddio ystod ehangach o rywogaethau.

Mae'r model ESC yn ymgorffori gwybodaeth ynghylch addasrwydd rhywogaethau ar gyfer dros 50 o rywogaethau o goed mewn coedwigoedd, ond nid yw offeryn cefnogi penderfyniadau ESC yn cynnal yr un manylion o ddata pridd ag yn yr astudiaethau a ddisgrifiwyd, nac yn ymgorffori'r defnydd tir presennol. Ar gyfer y gwaith modelu ERAMMP, modelwyd 11 rhywogaeth, a chyflwynir 5 ohonynt yn yr adolygiad hwn. Ystyriodd Bathgate et al. (2020) 14 o rywogaethau o dan gyfnod hinsawdd sylfaenol o 1961-1990. Felly mae pob astudiaeth yn cyfrannu gwybodaeth werthfawr at wneud penderfyniadau. Bydd cyfuno dosbarthiadau gofodol manwl yr ardal goedwig bresennol a'r defnydd tir, fel yn Bathgate et al. (2020) yn ogystal ag ardaloedd i'w heithrio rhag plannu, fel yn adroddiad Environment Systems (2020), yn gwella ymhellach ein dealltwriaeth o effeithiau newid yn yr hinsawdd posibl ar greu coetiroedd. Mae'r gwaith hwn ar y gweill yn natblygiad Llwyfan Modelu Integredig ERAMMP.

4.10 Dewis rhywogaethau ar gyfer gwydnwch

Mae ymchwil yn parhau i archwilio rhywogaethau posibl ar gyfer hinsoddau yn y dyfodol ac i ddeall eu priodweddau, gan gynnwys twf, ffurf, priodweddau pren, addasrwydd ac effeithiau bioamrywiaeth rhywogaethau mân (a dyfwyd eisoes yn y DU ar raddfeydd bach) a rhywogaethau newydd (nas tyfir yn eang yn y DU) (e.e. Bladon ac Evans 2015; Gill-Moreno et al. 2016; Mason et al. 2018a, b; Savill et al. 2015, 2016; Wilson et al. 2018). Mae tystiolaeth hefyd yn dangos bod tyfu clystyrau o rywogaethau mewn cymysgeddau yn fwy gwydn i hinsoddau rhagamcanol y dyfodol, gyda rhai cyfuniadau yn dangos mwy o wydnwch rhag sychder, cyfraddau twf

cyflymach, yn ogystal â'r gwydnwch cynhenid o fwy o amrywiaeth o rywogaethau (e.e. Coll et al. 2018; Drossler et al. 2018) (gweler 2.11). Mae Mason et al. (2018b) yn darparu adolygiad o rywogaethau posibl ar gyfer ardaloedd Gorllewinol y DU yn seiliedig ar ymchwil o ardd goedwig Kilmun yng ngorllewin yr Alban. Mae arbrofion tymor hir, safleoedd monitro a choederddi yn darparu ffynonellau gwybodaeth gwerthfawr (Mason et al. 2018c).

Bydd addasrwydd rhywogaethau yn newid dros y 60 mlynedd nesaf a thu hwnt, ac mae dewis rhywogaethau yn debygol o newid yn raddol dros y ganrif nesaf, gydag ystod ehangach o rywogaethau yn cael eu hannog, gan gynnwys rhywogaethau a tharddiad mwy deheuol lle bo hynny'n briodol, a rhywogaethau sy'n goddef sychdwr yn fwy, fel pinwydd. Canfu'r Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol (2018) fod mwy o reolwyr tir eisoes yn ystyried ystod eang o rywogaethau amgen. Mae manylion am yr ystod o rywogaethau amgen posibl a chymysgeddau o rywogaethau y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn oherwydd ehangder rhywogaethau a thystiolaeth, a llenyddiaeth sy'n tyfu'n gyflym. Gellir gweld manylion am ystod eang o rywogaethau amgen ar wefannau Forest Research³, y Gymdeithas Goedwigaeth Frenhinol⁴, a SilviFuture⁵.

Wrth ystyried newidiadau i ddethol rhywogaethau a chyfansoddiad coedwigoedd yn y dyfodol, rhaid ystyried goblygiadau cyflwyno coed newydd i iechyd coed, y risg o gyflwyno plâu neu bathogenau newydd, a rhyngweithiadau gwesteiwr a phlâu/pathogenau newydd i'r DU. Mae pryder y gallai'r cynnydd mewn rhywogaethau anffordrol gynyddu'r risgiau, yn enwedig i iechyd coed (Ennos et al. 2018), gweler Adran 9. Mae newid strategol, graddol, trwy ddefnyddio offer cefnogi penderfyniadau fel ESC ar raddfeydd gweithredol a pholisi, ac ymchwil barhaus i reolaeth, rhywogaethau a dewis tarddiad, yn well er mwyn atal camaddasiad. Mae angen ymateb addasol ar raddfeydd polisi a gweithredu, gyda monitro ac adolygiadau rheolaidd o risg, tystiolaeth a strategaeth, fel yn y fframwaith rheoli risg yn Adran 2.1 i nodi pan fydd efallai angen newid sylweddol mewn polisi ac arfer.

Ar gyfer coetiroedd brodorol, gellir annog newid rhywogaethau hefyd trwy adfywio naturiol neu gyda chymorth. Mae yna dystiolaeth gyfyngedig y gall hyn hefyd gefnogi gwydnwch lle mae rhywogaethau'n adfywio o dan e.e. amodau sychder. Efallai na fydd newid yn y dewis o rywogaethau yn briodol ar goetiroedd brodorol oherwydd tacsonau a rhywogaethau arbenigol dibynnol. Gweler Adran 11.

³ <https://www.forestresearch.gov.uk/tools-and-resources/tree-species-database/>

⁴ <https://www.rfs.org.uk/learning/forestry-knowledge-hub/forest-resilience/alternative-tree-species/>

⁵ <https://www.silvifuture.org.uk/>

5. NEWID HINSAWDD, COEDWIGAETH A GWYNT

Mae gwynt yn gyfyngiad mawr ar reoli coedwigoedd yn y DU (Quine et al. 1995). Gall gwynt leihau opsiynau sefydlu, cyfyngu ar hyd cylchdro, a lleihau opsiynau ar gyfer teneuo, a thrawsnewid i orchudd parhaus. Mae difrod i goetiroedd gan ddigwyddiadau gwynt yn arwain yn uniongyrchol at gostau cynaeafu uwch a phren llai gwerthfawr, ond mae costau anuniongyrchol hefyd, gan gynnwys llai o werth amwynder, pryderon diogelwch i weithwyr coedwig, a difrod i gynefinoedd bywyd gwyllt (Gardiner et al. 2013).

